**PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT**

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod o Bell, 12 Hydref, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.R. Thomas (Cadeirydd); Cynghorydd H.M. Payne (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr A. Asbrey, W. Gilligan, R. Godfrey, E.J. Goodjohn, W.A. Hennessy, N.P. Hodges, J. Lynch-Wilson, N. Marshallsea a J.M. Norman

Aelodau cyfetholedig: L. Barrowclough (Rhiant Lywodraethwr – Sector Gynradd), R. Morteo (Yr Eglwys yng Nghymru), M. Price (Yr Eglwys Gatholig Rufeinig), G. Scott (Addysg Cyfrwng Cymraeg), G. Van der Burgt (Rhiant-lywodraethwr – Sector Uwchradd); R. Goodjohn (Fforwm Ieuenctid y Fro), J. Clemett a T. Williams (Cyngor Ieuenctid y Fro).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr J. Aviet, R.M. Birch (Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg), L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Berfformiad ac Adnoddau), G.D.D. Carroll, C.P. Franks, E. Goodjohn a S.J. Haines.

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd E. Penn.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Medi, 2023 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd W.A. Hennessy fuddiant personol yn Eitem 4 ar yr Agenda (Cyllid Ysgol). Natur y buddiant oedd bod y Cynghorydd yn Aelod o Gymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro.

Datganodd y Cynghorydd J. Lynch-Wilson fuddiant personol yn Eitem 4 ar yr Agenda (Cyllid Ysgol). Natur y buddiant oedd bod y Cynghorydd yn Aelod o Gymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro.

Datganodd y Cynghorydd N. Marshallsea fuddiant personol yn Eitem 4 ar yr Agenda (Cyllid Ysgol). Natur y buddiant oedd bod y Cynghorydd yn cael ei gyflogi gan Jane Hutt, AS.

Datganodd L. Barrowclough fuddiant personol yn Eitem 4 ar yr Agenda (Cyllid Ysgol). Natur y buddiant oedd ei bod yn Aelod o Gymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro.

Datganodd Dr. M. Price fuddiant personol yn Eitem 4 ar yr Agenda (Cyllid Ysgol). Natur y buddiant oedd mai Dr. Price oedd Cadeirydd Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro.

Datganodd G. Van der Burgt fuddiant personol yn Eitem 4 ar yr Agenda (Cyllid Ysgol). Natur y buddiant oedd ei bod yn Aelod o Gymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro.

EITEM AGENDA 4. ARIANNU A CHYLLID YSGOLION – ALUN CAIRNS, AELOD SENEDDOL BRO MORGANNWG

ARGYMHELLWYD – Y dylid diolch i Alun Cairns AS am ei amser a'i gyflwyniad llafar ar gamau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru a'r DU i fynd i'r afael â'r materion ariannol sy'n wynebu ysgolion Bro Morgannwg.

Y rheswm dros yr argymhelliad

I ystyried y cyflwyniad llafar gan Alun Cairns AS, mewn ymateb i'r materion a godwyd yng nghyfarfod mis Mehefin y Pwyllgor ynghylch cyllid ysgolion fel y'i cyflwynwyd gan Gadeirydd Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro.

EITEM AGENDA 5. DIWEDDARIAD PRESENOLDEB YSGOLION CYNRADD AC UWCHRADD (CDS) –

(1) NODI adroddiad Diweddariad Presenoldeb Ysgolion Cynradd ac Uwchradd.

(2) Y Pwyllgor i dderbyn adroddiad diweddariad cynnydd pellach mewn 6 mis (Ebrill 2024).

Y rhesymau dros yr argymhellion

(1) I ystyried cynnwys yr adroddiad ar gyfrifoldeb strategol y Cyngor am weithredu dulliau a chynlluniau effeithiol er mwyn sicrhau'r lefelau presenoldeb gorau posibl.

(2) Er mwyn gwerthuso'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r lefelau presenoldeb cyffredinol ac effaith yr ymgyrch #ColliYsgolColliAllan, lansio'r pecyn cymorth presenoldeb ysgol, yr hyfforddiant a'r cymorth pellach i ysgolion ac unrhyw brosiectau peilot ymyrraeth a lansiwyd gydag ysgolion i'r Pwyllgor eu cynnal i oruchwylio gwaith y Tîm Cynhwysiant a'r effaith ar lefelau presenoldeb ar draws Ysgolion Bro Morgannwg.

EITEM AGENDA 6. YMGYNGHORIAD AR Y NEWID ARFAETHEDIG I GATEGORI YSGOL STANWELL (CDS) –

ARGYMHELLWYD -

(1) NODI penderfyniad y Corff Llywodraethu i gynnal ymgynghoriad o 11 Medi 2023 i 23 Hydref 2023 ar y cynnig i newid categori'r ysgol o Ysgol Sefydledig i Ysgol a Gynhelir yn y Gymuned.

(2) Y dylai'r Pwyllgor gymeradwyo'r cynnig.

Y rhesymau dros yr argymhellion

(1) I ystyried cynnwys yr adroddiad ar benderfyniad y Corff Llywodraethu i ofyn am adborth drwy ymgynghoriad ffurfiol â rhanddeiliaid rhagnodedig, cyn cyhoeddi ei gynnig, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

(2) I sicrhau yr ymgynghorir â'r Pwyllgor Craffu ar Ddysgu a Diwylliant ynghylch y cynnig fel rhanddeiliad a nodwyd.

EITEM AGENDA 7. ADRODDIAD HYFFORDDIANT LLYWODRAETHWYR AR GYFER Y FLWYDDYN ACADEMAIDD 2022/23 (CDS) –

ARGYMHELLWYD – NODI Adroddiad Hyfforddiant Llywodraethwyr ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2022/23.

Y rheswm dros yr argymhelliad

I ystyried cynnwys yr adroddiad ar y sylwebaeth, ystadegau presenoldeb a'r gwerthusiadau a dderbyniwyd ar gyfer cyrsiau hyfforddiant llywodraethwyr ar-lein a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn academaidd 2022/23.

EITEM AGENDA 8. TRACIO ARGYMHELLION SGRIWTINI CHWARTER 1AF AC 2IL 2023/24 AC ATODLEN RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR WEDI'I DIWEDDARU 2023/24 (CAC) –

ARGYMHELLION -

(1) CYTUNO ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiad A a B yr adroddiad.

(2) CYMERADWYO'r Amserlen Blaenraglen Waith ddiweddaraf ar gyfer 2023/24 sydd wedi'i hatodi yn Atodiad C yr adroddiad a'i huwchlwytho i wefan y Cyngor.

Y rhesymau dros yr argymhellion

(1) I ystyried cynnwys yr adroddiad i gadw golwg ar argymhellion y Pwyllgor.

(2) Er gwybodaeth i'r cyhoedd.